# Cymunedau Creadigol AHRC

Ymarferydd Arloesi Cymunedol Peilot

Papur Polisi



## Alban

## Sgiliau

Hydref 2024

**Comisiynwyd gan:**

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

# Cyd-destun Polisi

Mae Cyfnewid Gwybodaeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn fecanweithiau sy'n galluogi ymchwil academaidd i gael effaith ar y byd y tu allan i sector y sefydliadau addysg uwch. Fodd bynnag, maent yn cael eu beirniadu fwyfwy oherwydd gallant fod:

- yn cael eu gyrru gan chwilfrydedd academaidd yn hytrach nag angen strategol y sefydliad;
- yn seiliedig ar amserlenni a bennir gan gyfle cyllido neu argaeledd myfyriwr/cydymaith ymchwil yn hytrach na'r 'amser iawn' i'r sefydliad;
- yn canolbwyntio ar ganlyniadau terfynol sydd ddim bob amser yn hawdd eu gweithredu.

Ym Mhrifysgol Glasgow, datblygwyd Catalydd Partneriaeth y Celfyddydau a'r Dyniaethau i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gyd-greu ymchwil gyda chymunedau a grwpiau traws-sector.

Mae'r Catalydd yn creu cymunedau fel rhwydweithiau cynaliadwy o academyddion a rhanddeiliaid sy'n dod at ei gilydd drwy gyfres o weithgareddau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n bodoli mewn sectorau penodol. Mae'n bwysig nodi bod y Catalydd yn defnyddio technegau arloesi drwy ddylunio, a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Ysgol Gelf Glasgow.

Mae Catalydd Govan Old yn mynd ati'n ystyrlon i ddefnyddio cryfderau academaidd i ymgysylltu â'r cyd-destun lleol drwy ysgogi a chreu cymuned ymarfer o amgylch asedau treftadaeth presennol Govan Old

# Argymhellion

Er mwyn mynd i'r afael â chyd-destun y polisi, cynigir nifer o argymhellion. Pe bai'r rhain yn cael eu defnyddio i ddatblygu polisi yn y dyfodol, byddai arianwyr strategol a rheolwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr ymchwil.

## Defnyddio dulliau creadigol a dylunio fel dull cyfannol o ddatblygu polisi

Mae mwy i werth dulliau arwain drwy ddyluniad na gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth penodol, fel gweithdai. Drwy wreiddio strategaeth ddylunio drwy'r broses o gyd-greu yn ei chyfanrwydd – gan gynnwys llunio polisïau – gallwn sicrhau bod yr holl brosesau sylfaenol yn cael eu sefydlu mewn "gwasanaeth". Bydd yr integreiddio hwn yn creu profiad mwy unedig a chynhwysfawr i gyfranogwyr a thîm y prosiect.

Mae fframwaith ar gyfer cyd-greu partneriaeth yn galluogi cydweithio cydlynol. Dylai fframweithiau a phecynnau sefydliadol – map strwythuredig o ryngweithio – ymdrin â phob agwedd ar hwyluso partneriaeth gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) recriwtio i'r rhwydwaith; dyfeisio sianeli cyfathrebu; adolygu; a gwaith dilynol. Gall sefydlu 'theori newid' o'r cychwyn gefnogi gwaith gwerthuso datblygiadol drwy gydol y gwaith cyd-greu.

## Meithrin perthynas ar y dechrau

Mae defnyddio gwybodaeth bresennol yn siapio camau gweithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth. Cyn lansio gweithgareddau mewn sector newydd, dylai ymchwilwyr ymgysylltu'n rhagweithiol â gwybodaeth sydd ar gael ar y pryd o'r sector hwnnw, gan ddysgu ohoni ac adeiladu arni. Gellir cyflawni hyn drwy drafodaethau penodol a gwaith cwmpasu trylwyr, a allai gynnwys cyfweliadau, teithiau cerdded, ymchwil desg, ac ymgynghori ag ymchwilwyr sydd wedi gwneud gwaith tebyg.

Gall dulliau dylunio fel mapio gweledol ategu dogfennau. Mae hyn yn sicrhau bod y tîm yn cael ei drochi yn y pwnc a'i fod yn gallu cynnig mwy i gyfranogwyr, wrth i'r trefnwyr a'r cyfranogwyr drafod â'i gilydd. Mae hyn yn creu ethos o naïfrwydd cadarnhaol a gellir cael cydbwysedd rhwng bod yn agored ac ymestyn adnoddau gwerthfawr yn synhwyrol, fel amser a gwybodaeth cyfranogwyr.

## Sgiliau rhanddeiliaid

Gall darparu cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio ar draws y rhwydwaith rhanddeiliaid wella cyfraniad a datblygiad cymunedol. Dylai arweinwyr prosiectau gydweithio i greu rhaglenni hyfforddi sydd wedi'u cynllunio i uwchsgilio aelodau'r gymuned gan ddefnyddio dull trawsddisgyblaethol. Byddai hyn yn datblygu seilwaith cadarn drwy ymrwymiad a pherchnogaeth, gan sicrhau cynaliadwyedd y rhwydweithiau.

Mae darparu hyfforddiant a chyfleoedd uwchsgilio ym maes arloesi drwy ddylunio, ar gyfer ymarferwyr sy'n cyfnewid gwybodaeth, hefyd yn gallu gwreiddio arferion cyd-greu. Nid yw datblygu a chyflwyno dulliau ar gyfer cyd-greu yn fformiwläig ond mae angen addasiadau pwrpasol neu greu dulliau newydd i sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad ystyrlon a theg. Gall buddsoddiad mewn galluoedd dylunio gynnwys gweithio gyda dylunwyr yn ogystal

â hyfforddi ymarferwyr traws-sector ehangach i sefydlu arferion a pherthnasoedd cyd-greu cryf a chynaliadwy.

## Arwain gydag anghenion y sector mewn golwg

**Dylai cyd-greu gael ei yrru gan anghenion y gymuned er mwyn cynyddu perthnasedd ac effaith.** Mae gweithgarwch ymchwil gyda rhanddeiliaid y tu allan i sefydliadau addysg uwch yn tueddu i gael ei arwain gan nodau ymchwil yr academydd. Er y gallai hyn fod o ddiddordeb i'r cyfranogwyr anacademaidd, anaml y bydd o werth strategol i'r sefydliadau sy'n cael eu cynnwys. Drwy osod nodau gweithgarwch sy'n seiliedig ar angen y sector, mae cyfraniad y sector sefydliadau addysg uwch yn dod yn fwy perthnasol ac felly'n dod yn fwy effeithiol. Gall ymchwil fwy effeithiol sy'n cael ei chyflwyno yn ôl yr angen hefyd arwain at fanteision uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r economi a sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r Cyngor Ymchwil, a chyllid y Llywodraeth yn sgil hynny.

## Ymarfer ymgysylltu a chyd-greu

Bydd gwneud arferion iawndal teg yn orfodol yn hybu cyfranogiad ehangach a mwy amrywiol. Er mwyn cydnabod gwerth amser a chyfraniadau rhanddeiliaid, dylai iawndal teg gael ei roi am amser rhanddeiliaid sydd ddim yn cael eu talu fel arall. Gallai hyn gynnwys addasu canllawiau cyllido i gynnwys iawndal teg, adeiladu ar fecanweithiau presennol fel ad-daliadau teithio a darparu bwyd a diod i gyfranogwyr. Drwy wneud hyn, gellir sicrhau nad yw cyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar gyfranogiad.

Bydd cynnwys y gymuned yn gynnar ac yn amrywiol yn siapio cyfeiriad ymchwil sy'n cael ei chyd-greu yn y dyfodol. Bydd ymgysylltu â chynrychiolwyr o ardaloedd lleol yn gynnar drwy sesiynau cwmpasu, cynulliadau anffurfiol a gweithdai yn helpu i ddeall eu hanghenion a'u dyheadau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys dulliau wyneb-yn-wyneb, cyfryngau cymdeithasol, radio lleol a grwpiau cymunedol i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu clywed. Bydd mecanweithiau ymgysylltu tymor hir, fel cyfarfodydd rheolaidd a llwyfannau ar-lein ar gyfer adborth parhaus, yn cynnal yr ymdrechion hyn.

## Meithrin gallu dinesig

Gall cryfhau partneriaethau traws-sector greu cysylltiadau dyfnach rhwng sefydliadau addysg uwch a'r amgylchfyd dinesig. Fe wnaeth Catalydd Govan Old ymgysylltu â nifer o ysgolion ledled Glasgow (gan gynnwys Ysgol Uwchradd Govan, Ysgol Gynradd Pirie Park, Ysgol Gynradd Riverside neu Ysgol Gynradd St Saviour) mewn sgyrsiau newydd gyda chenhedlaeth newydd am eu treftadaeth. Fodd bynnag, nid oes digon o wirfoddolwyr i gefnogi'r gwaith hwn yn y tymor hir. Drwy alluogi sefydliadau addysg uwch a chymunedau i weithio mewn partneriaeth, mae'n bosibl sefydlu rhaglenni lleoliadau neu interniaethau i fyfyrwyr sy'n cael eu goruchwylio gan academyddion gydag arbenigedd sy'n berthnasol i'r maes ymchwil.

Byddai cynlluniau addysgol hirdymor sy'n cysylltu ysgolion lleol a phrifysgolion gyda phrosiectau treftadaeth a chymunedol yn ennyn diddordeb myfyrwyr mewn ymdrechion hanes ac adfywio lleol ac yn eu hyfforddi mewn sgiliau treftadaeth. Dylai sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau addysg lleol gymryd rhan mewn astudiaethau treftadaeth sy'n darparu profiad gwaith drwy gynnwys myfyrwyr mewn prosiectau fel casglu hanes llafar a mentrau treftadaeth ddigidol.

# Cyd-destun Datganoledig

Yn yr Alban, mae'r Strategaeth Arloesi Genedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn tynnu sylw at arloesi fel arf allweddol wrth greu gwlad sy'n fwy teg, yn fwy cyfartal, yn fwy cyfoethog ac yn fwy gwyrdd. Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ymyriadau polisi arloesi trawsnewidiol (fel y symudiad tuag at fuddsoddiadau seilwaith arloesi hirdymor gan Gyngor Cyllido'r Alban).

Mae sefydliadau addysg uwch yn rhanddeiliaid hanfodol mewn gwaith trawsnewid rhanbarthol. Serch hynny, maent yn wynebu nifer o rwystrau rhag chwarae rhan ranbarthol (Aranguren et al 2021, Kempton et al. 2021). Mae creu ymchwil sy'n seiliedig ar heriau ac asesiadau effaith yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yn annog prifysgolion i chwarae rôl ragweithiol wrth ddatblygu eu maes dinesig (Fonseca & Nieth, 2021). Mae gan sefydliadau addysg uwch rôl glir fel ysgogwyr cyd-greu ymchwil cynaliadwy yn yr Alban, yn enwedig yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau (Carey et al. 2024).

Dylai Llywodraeth yr Alban gymell sefydliadau addysg uwch yn well i gyd-greu ymchwil yn gynaliadwy gyda rhanddeiliaid rhanbarthol traws-sector, yn enwedig sefydliadau diwylliannol llai, mentrau cymdeithasol, a gweithwyr llawrydd sydd ddim yn cymryd cymaint o ran mewn gwaith ymchwil a datblygu. Ar ben hynny, byddai datblygu polisïau penodol i gefnogi arloesi drwy ddylunio a chyd-greu gweithgareddau ymchwil yn y gymuned yn cyd-fynd â'r argymhellion ar gyfer dulliau creadigol ac arferion cyd-greu a amlinellir yn yr adroddiadau uchod.

Gellir defnyddio model y Catalydd, y mae modd ei efelychu, a dulliau cyd-greu drwy ddylunio, fel model i helpu Llywodraeth yr Alban a Chyngor Cyllido'r Alban i drawsnewid y cyd-destun ymchwil a datblygu. Drwy greu rhwydweithiau cynaliadwy sy'n cynnwys sefydliadau addysg uwch a chyfrannu'n well at gyd-greu polisïau ar lefel ddatganoledig, byddai modd gwella gwaith ymgysylltu dinesig ein sefydliadau addysg uwch yn sylweddol. Byddai hefyd yn sicrhau bod Llywodraeth ddatganoledig yr Alban a'i strwythur llywodraethu yn gallu cyfrannu'n effeithiol ac yn gynhwysol i ennyn diddordeb pob sector a chymuned mewn diwylliant ac ymchwil a datblygu i greu ecosystem arloesi gynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

Cysylltwch â'r CIP:

Gaston Welisch, Prifysgol Glasgow & Ysgol Gelf Glasgow | gastonwelisch@gmail.com

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE